

**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 14eg Ionawr, 2019, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadi o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Cadeirydd)  
 Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd)  
 Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Ifor Owen,  
 Carys E. Williams, Siôn Williams  
 Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Elin Hughes, Gwenan Griffith, Michael Strain a'r  
 Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

**82. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

**83. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Eerbyniwyd datganiadau buddiant personol gan ddau aelod a nodir hynny o dan yr eitemau perthnasol.

**84. CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 10fed Rhagfyr, 2018.

**Materion yn Codi****(a) Eitem 76 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (b) – Biniau Halen**

**Adroddwyd** i e-bost gael ei dderbyn oddi wrth y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar 4ydd Ionawr, 2019, yn cadarnhau mai pris bin halen newydd maint 200lt fyddai £182.49 a'r gost o'i llenwi fyddai £46.

Yn unol a'r hawl roddwyd i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yng nghyfarfod mis Tachwedd, 2018, gofynnwyd i'r Adran Priffyrdd symud ymlaen i osod y bin ar allt Coch Moel, Bryncroes, mor fuan a bo modd. Gwnaed y gwaith yn ddiymrdo i diolchwyd am hynny.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

**(b) Eitem 78 – Materion Ffyrdd**

**Cyflwynwyd** atebiad y Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, i gwynion anfonwyd i'w sylw – copi o'r atebiad yn ffurflen rhan o'r cofnodion.

**Penderfynwyd** derbyn yr ymateb ond ysgrifennu ymhellach at y Swyddog yn datgan fod y Cyngor yn anghytuno gyda'r atebiad fod "gogwydd wal y bont wedi bod yn cael ei fonitro ganddynt (sef Adain Strwythurau Ymgynghoriaeth Gwynedd). Hyd yn hyn mae'r sefyllfa wedi bod o fewn goddefiad risg." Gan fod y wal yn gogwyddo i ffordd gyhoeddus teimlad y Cyngor oedd fod hyn yn creu risg gwirioneddol i gerddwyr, beicwyr a cherbydau. Gofynnwyd am ymateb.

**(c) Eitem 81 – Cyfarfod o Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol**

**Adroddodd** y Clarc iddi gael ar ddeall gan Un Llais Cymru mai .45c y filltir oedd y gyfradd a ddefnyddir ar gyfer aelodau sydd wedi mynychu cyfarfod a hynny wedi ei ddynodi yn ddyletswydd cydnabyddiedig.

Deallwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts, a fynychodd gyfarfod ym Mhwillheli ar 20fed Hydref, 2018, mai 24 milltir oedd o'i gartref i'r cyfarfod ac yn ôl.

**Penderfynwyd** awdurdodi talu'r Cyngorydd Glyn Roberts £10.80 costau teithio.

**85. CEISIADAU CYNLLUNIO**

**(a) Cyflwynwyd** cais C18/1136/36/LL – cais ol-weithredol i osod lift allanol yn 2 Fron Hyfryd, Bryn Mawr.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.

**(b) Cyflwynwyd** dogfen ar Ymgynghoriad cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol – y ddogfen wedi ei chylchredeg ymysg yr aelodau.

**Penderfynwyd** awgrymu y byddai crynodeb o'r newidiadau/gwelliannau arfaethedig yn fwy derbyniol yn y dyfodol gan fod dogfen mor hirfaith ac yn anodd i'w dehongli.

**86. MATERION FFYRDD**

**Penderfynwyd** gofyn i'r Ymgymwrwr torri gwellt gael golwg ar gamfa Bryncocyn, Sarn, a barbio'r tyfiant.

**87. MATERION IECHYD**

(a) Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymunedd Gogledd Cymru.

(b) Derbyniwyd cwyn nad oedd yr enw oedd yn dod i fyny ar y sgrin newydd yn Y Feddygfa ym Motwnnog, yn aros yn ddigon hir i'r cleifion allu ei weld.

**Penderfynwyd** cysylltu a Rheolwr Y Feddygfa iddo adfer y sefyllfa.

**88. IS-BWYLLGOR ARIANNOL**

**Cyfarfu'r Is-bwyllgor Ariannol** yn gynharach ar y noson pryd 'roedd Y Cyngorwyr Glenys Williams (Cadeirydd), David Brunelli, Ifor Owen a Glyn Roberts yn bresennol.

Wrth drafod y gyllideb cadwyd sylwadau'r BDO mewn cof ac hefyd e-bost gan Mel abOwain o Un Llais Cymru o dan pa adrannau o'r Ddeddf 'roedd gan y Cyngor hawl i gyfrannu – bydd y wybodaeth yma yn ffurfio rhan o'r cofnodion swyddogol.

Hefyd derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru fod hawl gan y Cyngor i gyfrannu yr uchafswm o £8.12 am bob etholwr ym mlwyddyn 2019/20 ac yn dilyn gair a Mr. Raymond Harvey, Swyddog Etholiadol, Cyngor Gwynedd, nifer yr etholwyr ar gyfer Cymuned Botwnnog oedd 730 ar 1af Rhagfyr, 2018.

O'r daenlen gyflwynwyd sylwyd fod £8,106.35 yn y cyfrif cyfredol ym mis Ionawr gyda'r gwariant a ragwelwyd i fyny i 31ain Mawrth, 2019, yn £2,003.69, oedd yn gadael amcangyfrif o falans o £6,102.66,

Cyflwynwyd hefyd daenlen o wariant ragwelir am y flwyddyn 2019/20 a byddai'r costau oddeutu £3,352.90 o'i gymharu a'r flwyddyn ariannol bresennol, ond nid oedd cyfraniadau ariannol na unrhyw wariant na ragwelwyd wedi ei gynnwys.

Nododd yr Is-bwyllgor hefyd fod yr arian yng nghyfrif y fynwent, sef £949, yn prinhaus gan nad oes unrhyw gyfraniad ariannol yn cael ei dderbyn gan deuluoedd y rhai sydd yn gorwedd yno. Eleni ni fu yr un gladdedigaeth yn y Fynwent felly ni dderbyniwyd unrhyw daliadau. Sylwyd mai £337.14 fyddai'n weddill yng nghronfa'r fynwent yn dilyn talu'r Ymgymwrwr Barbio, ac felly ni fyddai modd i'r Cyngor ymgymryd a'i barbïo yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Trafodwyd y gyllideb a **phenderfynwyd argymell** i'r Cyngor:

- a) Dderbyn yr adroddiad uchod.
- b) Glynu at yr un praesept a'r flwyddyn ariannol yma sef £5,500.
- c) Trosglwydd £1,000 i Gronfa'r Fynwent er cyfarfod a'r costau barbio a.y.
- d) Penodi Luned Fon Jones, Rheolwr Archwilio, Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd, fel Archwiliwr Mewnol i'r Cyngor.

**Trafodwyd adroddiad** yr Is-bwyllgor a phenderfynwyd gweithredu'n unol a'r argymhellion.

## 89. CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

**Cyflwynwyd** ceisiadau am gyfraniadau ariannol gan Fudiadau a **phenderfynwyd fel a ganlyn:**

### (a) Canolfan Gymunedol Bryncroes

**Cyfrannu** £500 fel un taliad ('one off') o dan ganllawiau'r "Well Being of Future Generations (Wales) Act 2015." 'Roedd y Cyngor o'r farn fod cadw'r Ganolfan ym Mryncroes yn adnodd pwysig ar gyfer y dyfodol er sicrhau man cyfarfod i Fudiad Ysgolion Meithrin a Mudiadau eraill sydd yn yn cyfarfod yn rheolaidd yn yr adeilad.

(Datganodd y Cynghorwyr Dylan Parry Jones a Glyn Roberts ddiddordeb yn yr eitem yma a bu i'r ddau adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth. Hefyd bu iddynt arwyddo'r datganiad buddiant personol).

### (b) Prosiect Plas Carmel, Anelog

**Cyfrannu** £100 tuag at y Prosiect yma eto o dan ganllawiau'r "Well Being of Future Generations (Wales) Act 2015." 'Roedd y Cyngor o'r farn fod Capel Carmel, Anelog, yn chwarae rhan bwysig yn nhreftadaeth crefyddol a diwylliannol Penrhyn Llyn. O atgyweirio'r adeilad byddai o fantais nid yn unig i'r trigolion lleol ar draws y Penrhyn ond byddai'n adnodd ychwanegol yn economaidd a diwyllainol gan ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal.

(Datganodd Y Cynghorydd Glyn Roberts ddiddordeb yr eitem yma a gadawodd yr ystafell tra bu'r cais yn cael ei drafod. Hefyd bu iddo arwyddo'r datganiad buddiant personol).

**(c) Eglwys St. Mair, Bryncroes – cronfa'r Fynwent**

**Cyfrannu** £150 tuag at gynnal a chadw'r Fynwent o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sef cymal "power to contribute towards expenses of cemeteries."

**(ch) Cyngor Tref Nefyn – Llyfrgell Ardal Nefyn**

Peidio cyfrannu.

**90. AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad ychwanegol yn ddyledus.

**91. AIL STRWYTHURO CANOLFANNAU IAITH GWYNEDD**

**Cyflwynwyd** llythyr leuan Wyn, Ysgrifennydd Cylch yr Iaith, ynglyn ag ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd – copi o'r llythyr wedi ei gylchredeg i'r aelodau gyda'r rhaglen.

**Penderfynwyd** gwneud ymholiadau pellach beth yn union sydd yn cael ei ail-strwythuro a beth fyddai'r effaith.

**92. YMGYNGHORIAD AR BOLISI GOSOD TAI GYFFREDIN GWYNEDD**

**Penderfynwyd** trafod y ddogfen yn y cyfarfod nesaf.

**93. BARBIO TIROEDD Y CYNGOR**

**Penderfynwyd** gwahodd tendrau i farbio'r Fynwent, Comin Bryncroes, llwybrau a gwaith cysylltiol arall, yn rhifyn Chwefror o Llanw Llyn.

**Penderfynwyd** ymhellach glynu at yr un amodau a'r flwyddyn gyfredol.

**94. YNNI LLYN**

**Rhannwyd** taflen gan Ynni Llyn yn amlinellu yr hyn a gynigir ganddynt.